



## Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Plas y Garn**

**Cartref Preswyl Plas y Garn  
Park Gardens, Pen-y-garn  
Pont-y-pŵl  
NP4 8DB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad**

**29 Mehefin 2022**

30/6/2022

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.**

*Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk) Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Phlas y Garn

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth cartref gofal Oedolion heb ofal nyrsio
Darparwr cofrestredig	Hafod Housing Association Ltd
Lleuedd cofrestredig	32
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy iaith
Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru	Dyma'r arolygiad cyntaf o'r gwasanaeth ers cofrestru dan Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant.

## Crynodeb

Mae'r bobl yn canmol y staff a'r gwasanaethau a ddarperir ym Mhlas y Garn. Caiff unigolion eu trin ag urddas a pharch. Mae awyrgylch y gwasanaeth yn hamddenol ac mae'r bobl yn ddiogel ac yn gyfforddus. Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo amgylchedd glân, cartrefol a thaclus. Ar hyn o bryd, nid oes gan y gwasanaeth unigolyn cyfrifol i oruchwylio rheolaeth y gwasanaeth ac i roi sicrwydd bod y gwasanaeth yn ddiogel, yn cael ei redeg yn dda, ac yn cydymffurfio â rheoliadau. Gwnaethom nodi meysydd i'w gwella o ran recriwtio staff a chymorth i'r rheolwr gyflawni ei rôl. Disgwylir y bydd y darparwyr gwasanaeth yn mynd i'r afael â'r diffygion er mwyn gwella canlyniadau i'r bobl.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu hannog i wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd sy'n effeithio ar eu bywydau. Gwelsom dystiolaeth o ddewisiadau a hoffterau unigolion yn cael eu parchu a'r gofal a'r cymorth yn cael eu haddasu i'r unigolyn. Cyn i rywun symud i'r gwasanaeth, gwneir ymdrech i gasglu gwybodaeth amdano, ei fywyd, ei deulu a'r hyn sy'n bwysig iddo yn ogystal â'i anghenion gofal. Mae'r staff yn gyfarwydd i'r bobl ac yn garedig ac yn sylwgar a gelwir yr unigolion yn ôl yr enw y maent yn ei ffafrio.

Mae anghenion iechyd a llesiant corfforol ac emosiynol y bobl yn cael eu diwallu yn y gwasanaeth. Mae gan y bobl fynediad at wasanaethau gofal iechyd pan fydd ei angen arnynt. Mae gwasanaethau meddygon teulu ar gael yn wythnosol. Mae nyrsys ardal yn cynorthwyo'r bobl i fyw yn y gwasanaeth, ac mae unigolion yn cael eu himiwneiddio yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant am ymwybyddiaeth o ddementia i gynorthwyo'r bobl yn eu gofal.

Mae'r bobl yn cael eu diogelu rhag niwed a chamdriniaeth. Mae damweiniau a digwyddiadau unigol yn cael eu monitro ac mae asesiadau risg yn cefnogi unigolion gyda'u hanghenion dyddiol. Mae'r darparwyr gwasanaeth yn sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu er budd pennaf y person a bod awdurdodiad cyfreithlon ar waith lle bo angen. Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant ar brotocolau diogelu Cymru gyfan. Nid yw'r arferion recriwtio yn gadarn i sicrhau'n llawn addasrwydd y staff i weithio gyda phobl sy'n agored i niwed.

Gall y bobl fwynhau perthnasoedd da gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau. Roedd gan unigolion farn gymysg am y gweithgareddau a ddarperir yn y gwasanaeth, er bod ystod o weithgareddau ar gael. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau'r ymweliadau gan blant yr ysgol leol yn fawr. Dywedodd un preswlydd, "*Mae'n hyfryd yma ond does dim llawer yn digwydd.*" Dywedodd rhywun arall wrthym fod ganddo ffrind gorau y mae'n mwynhau treulio ei amser gydag ef yn byw ym Mhlas y Garn. Gwelsom y staff yn eistedd gyda'r preswylwyr yn sgwrsio. Anogir perthnasau i ymweld â'u hanwyliaid, ac mae siop wedi'i chreu i'r bobl ymweld â hi i brynu melysion ac eitemau personol gyda'u perthnasau.

Mae'r amgylchedd yn gartrefol ac yn gyfforddus ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae ystafelloedd yr unigolion wedi'u haddurno yn ôl chwaeth unigol ac mae eiddo'r unigolion ac yn cael ei arddangos. Mae gan bob ystafell ardal y gellir ei chloi at ddefnydd personol yr unigolion. Mae amryw o opsiynau i bobl dreulio eu diwrnod, gydag ystafell hel atgofion a lolfa dawel ar gael, yn ogystal ag ardaloedd cymunol mwy o faint. Mae'r dodrefn yn gyfforddus ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda yn ôl pob golwg. Roedd tymheredd priodol drwyddi draw gyda thystiolaeth o awyru naturiol.

## Gofal a Chymorth

Mae gofal a chymorth unigolion yn eu galluogi i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl. Mae cynlluniau personol y bobl yn unigoleddig ac mae eu hoffterau a'u casbethau yn amlwg. Ysgrifennir cynlluniau mewn ffordd sy'n parchu urddas y person ac ystyrir sut y mae'n well gan y person dderbyn gofal a chymorth a threulio ei ddiwrnod. Er enghraifft, roedd cynllun un person yn nodi pa mor bwysig yw ei edrychiad iddo a sut roedd yn hoffi cael ei wisgo'n dderbyniol. Gwelsom y staff yn cynorthwyo'r person i steilio ei wallt ac yn cynnig dillad diogelwch amser cinio. Adolygir cynlluniau personol bob mis a gwelsom fod cynlluniau'n cael eu diweddarau a'u newid lle bo angen. Weithiau, mae diffyg manylder yn y cofnod o adolygiadau ac nid yw'r dystiolaeth o ymgysylltu â'r preswylwyr a/neu eu perthnasau bob amser yn glir.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd i gynnal eu hiechyd a'u llesiant. Mae'r darparwr gwasanaeth yn rhagweithiol wrth ofyn am fewnbwn gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol ac wrth gwblhau unrhyw gamau a argymhellir. Mae'r gweithwyr gofal yn gwneud nodiadau dyddiol, ac fel arfer mae cofnod gofal yn cael ei gwblhau. Gwelsom nodi bod rai cofnodion ar goll yng nghofnod gofal unigolyn, ac roedd y rheolwr yn priodoli hyn i'r ffaith nad oedd y staff bob amser yn cwblhau dogfennau yn ôl yr angen. Mae asesiadau risg ar waith i gefnogi iechyd a llesiant pob unigolyn. Mae gwiriadau gofal iechyd yn cael eu cynnal. Cedwir cofnodion ymddygiad unigol pan fo angen, er i ni ganfod nad oedd y cofnodion bob amser yn ddigon manwl ac nad ydynt yn cynnwys disgrifiad o'r ymddygiad a arddangoswyd.

Mae'r bobl yn cael profiad bwyta cadarnhaol. Gwelsom unigolion yn cael cynnig dewis o fwyd a diodydd yn ogystal â ble yr hoffent fwyta eu pryd. Dywedodd un person y gwnaethom siarad ag ef wrthym, "*Mae'r bwyd yn dda iawn.*" Mae'r staff yn annog unigolion i gynnal eu sgiliau a'u hannibyniaeth gydag offer wedi'u haddasu. Gwelsom fod y staff yn sylwgar ac yn gefnogol i'r bobl.

Mae systemau rheoli meddyginiaeth ddiogel ar waith. Mae polisi meddyginiaeth cyfredol ar waith. Gwelsom fod archwiliadau meddyginiaeth mewnol yn cael eu cynnal a bod archwiliad blynyddol o'r fferyllfa sy'n cyflenwi yn cael ei gynnal. Mae'r staff yn cael eu hyfforddi i roi meddyginiaeth i'r bobl ac yn cael prawf cymhwysedd i sicrhau bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i gyflawni eu rôl. Mae cynlluniau personol y bobl yn nodi sut mae'n well gan yr unigolyn gymryd ei feddyginiaeth.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n addas i ddiwallu eu hanghenion. Mae cynllun yr amgylchedd yn cefnogi annibyniaeth y bobl. Mae'r ystafelloedd yn olau, yn loyw ac yn awyrog ac â golygfeydd da. Mae arddangosfeydd o waith celf a grëwyd gan y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae arwyddion i gynorthwyo'r bobl i ddod o hyd i'w ffordd o amgylch yr adeilad gyda chanllawiau drwy'r cyfan. Byddai rhai arwyddion yn elwa ar fod yn gliriach, megis arwyddion toiled. Gwelsom fod y lloriau mewn rhai mannau yn cael effaith negyddol ar ba mor hawdd y gellir defnyddio rhai cyfarpar. Gwelsom fod cerddoriaeth yn cael ei chwarae a bod teledu mewn un man, a allai achosi anhawster ychwanegol i unigolion ag anghenion synhwyrdd. Mae siop trin gwallt a siop sy'n darparu profiadau pellach i'r preswylwyr. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd diogel a chyfforddus ac mae archwiliadau ar waith i fonitro iechyd a diogelwch y safle, y cyfleusterau a'r cyfarpar.

Mae'r gwasanaeth yn hybu arferion hylendid ac yn rheoli'r risg o haint. Mae'r staff wedi'u hyfforddi mewn rheoli heintiau. Cwblheir offeryn archwilio misol ar gyfer COVID-19. Nododd gwiriad iechyd a diogelwch chwarterol o'r amgylchedd, a gynhaliwyd diwethaf ym mis Mehefin 2022, nad oedd angen unrhyw gamau gweithredu. Mae amserlenni glanhau diwygiedig wedi'u cyflwyno ac mae'r awdurdod lleol wedi ymweld â'r gwasanaeth i gefnogi arferion hylendid da. Mae'r gwasanaeth wedi cael sgôr o 4, sef da, gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae systemau ar waith i gefnogi rhediad esmwyth y gwasanaeth. Mae'r rheolwr yn brofiadol ac wedi gweithio yn y gwasanaeth am nifer o flynyddoedd. Caiff ei gefnogi gan ddirprwy reolwr rhan-amser. Mae'r tîm staff wedi cyflenwi absenoldebau yn ystod y pandemig gyda chyn lleied o ddefnydd â phosibl o staff asiantaeth. Gelwir ar y rheolwr i gyflawni tasgau gweinyddol yn ogystal â gweithio shifftiau gweithwyr gofal. Bu rhywfaint o symud staff, gyda nifer o'r rhai hŷn yn rhoi'r gorau i'w rôl. Dywedwyd wrthym fod recriwtio yn y gwasanaeth yn barhaus. Gwelsom ddiffygion o ran cadw cofnodion staff, gwybodaeth mewn ffeiliau personél, a gwybodaeth gyfrinachol nad oedd wedi'i storio'n ddiogel, a oedd yn dangos nad oes gan y rheolwr ddigon o gefnogaeth a/neu adnoddau i gyflawni ei rôl. Ar adeg yr arolygiad, roedd y sefydliad yn newid yr unigolyn cyfrifol, sef y sawl sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gwasanaeth. Gwnaethom nodi bod goruchwylio'r gwaith o reoli'r gwasanaeth yn faes i'w wella. Disgwyliwn i'r darparwr gwasanaeth gymryd y camau angenrheidiol a mynd i'r afael â'r toriad rheoliadol hwn erbyn ein harolygiad nesaf.

Mae trefniadau addas ar waith ar gyfer adolygu ac archwilio'r gwasanaeth yn rheolaidd. Mae systemau ansawdd ac archwilio ar waith sy'n adolygu cynnydd ac yn llywio datblygiad y gwasanaeth. Yn dilyn yr arolygiad, rhoddwyd copïau o adroddiad ansawdd chwe mis y gwasanaeth i ni ac ymweliad tri mis diwethaf yr unigolyn cyfrifol â'r gwasanaeth. Nid oedd adroddiad yr unigolyn cyfrifol yn cynnwys safbwyntiau'r preswylwyr a pherthnasau am y gwasanaeth. Dywedodd y rheolwr wrthym fod cyfarfodydd preswylwyr wedi cael eu cynnal yn llai aml yn ystod y pandemig, a bod bwriad i'w hailddechrau er mwyn rhoi llais i'r bobl.

Mae angen cryfhau prosesau recriwtio'r staff. Gwnaethom edrych ar ffeiliau personél y staff a gweld y cafwyd fetio ar ffurf gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a bod tystlythyrau boddhaol wedi'u cwblhau ar gyfer y staff sydd newydd eu penodi. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd dulliau adnabod, ar ffurf ffotograff a darn arall o dystiolaeth fel tystysgrif geni, ar gael mewn ffeiliau personél. Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ddulliau adnabod yr aelod o staff gael eu cadw ar ffeil. Dywedodd y rheolwr wrthym fod yr wybodaeth ofynnol yn aros i gael ei ffeilio. Rydym wedi nodi recriwtio staff fel maes i'w wella ac yn disgwyl i'r darparwr gwasanaeth gymryd y camau angenrheidiol erbyn ein harolygiad nesaf.

Mae'r staff yn cael eu cefnogi a'u datblygu i gyflawni eu dyletswyddau. Cawsom ein darparu â chynllun hyfforddi i ddangos bod hyfforddiant y staff yn barhaus. Roedd yr adolygiad ansawdd diwethaf, dyddiedig Mai 2022, yn dangos bod y staff wedi cyflawni 90% o hyfforddiant gorfodol. Yn ogystal, mae nifer y sesiynau goruchwylio ar gyfer y staff wedi cynyddu i gyd-fynd â'r rheoliadau. Mae cyfarfodydd staff a gafodd eu gohirio yn ystod COVID-19 i'w cael eu hailddechrau.

### Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
<b>Newydd</b>	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
<b>Adolygwyd</b>	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
<b>Ni chyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
<b>Cyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

### Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.



## Maes/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
35	<p>Yn ystod ein hymweliad â'r gwasanaeth, gwnaethom edrych ar ffeiliau tri aelod o staff, a chanfod gwybodaeth ar goll ar ffurf prawf adnabod a diffyg ffotograff ar gyfer y staff a oedd newydd eu penodi. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y ddogfennaeth ofynnol fwy na thebyg gyda phentwr o wybodaeth yr oedd angen ei ffeilio. Roedd ffotograffau o'r staff wedi'u nodi.</p>	Newydd
66	<p>Yn ystod yr arolygiad, gwelsom nifer o ddangosyddion nad oedd y rheolwr yn cael ei gefnogi'n llawn i gyflawni ei rôl/dyletswyddau.</p>	Newydd

**Dyddiad cyhoeddi 20/09/2022**